

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Arweinydd Swyddogion Traffig

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth




Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.
Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi’n leoli?

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



# Teitl y swydd: Swyddog Traffig Llywodraeth Cymru



**Cyflog:** £44,836.88 i £47,088.23

**Cyfnod:** Parhaol

(**42 awr yr wythnos flynyddol (Pro Rata) sifftiau 12 awr, 4 ymlaen– 4 i ffwrdd, 365 diwrnod y flwyddyn).**

**Un o'r lleoliadau isod;**

**Lleoliad: CRhT Conwy, Llandygai, Wrecsam (Llai) & Helygain**

**Dyddiad cau:** 19/02/26 11:00

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

## Pwrpas y swydd

Mae Gwasanaeth Swyddogion Traffig, Llywodraeth Cymru (LlC) yn cynrychioli wyneb cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar y briffordd drwy batrolio Rhwydwaith Cefnffyrdd yr A55/A494/A550/A483 yng Ngogledd Cymru.

Fel Swyddog Traffig Arweiniol, byddwch yn hyrwyddo a meithrin perthnasau gwaith da gyda'r holl randdeiliaid allweddol gan chwarae rôl hanfodol yn niogelwch ein ffyrdd yn y pen draw. Byddwch yn darparu lefel uwch o gyfrifoldeb, gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth i Swyddogion Traffig LlC. Hefyd, byddwch yn cefnogi Gweithredwyr Ystafelloedd Rheoli yn ogystal â Rheolwyr Tîm Gweithrediadau a'r Rheolwr Gweithrediadau yn eu dyletswyddau.

Byddwch yn gyfrifol am safonau Sicrwydd ac Ansawdd Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru, gan wella iechyd a diogelwch drwy gynnal ***'toolbox talks'*** ac archwilio gweithgareddau'r Swyddogion Traffig. Drwy ddadansoddi ac adrodd yn effeithiol, byddwch yn adnabod ac yn gweithredu cyfleoedd gwella.

Byddwch yn mynychu digwyddiadau arwyddocaol mewn rôl Comander Gweithredol, gan gydymffurfio ag egwyddorion JESIP i liniaru effeithiau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau ar y rhwydwaith a bod yn ymwybodol o faterion a allai amharu ar weithredu'n ddiogel.

Bydd angen i chi weithio patrymau shifft 12 awr (gan gynnwys penwythnosau a Gwyliau Banc) a bod ar gael i weithio goramser rhesymol yn ôl y gofyn. Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddymunol ar gyfer y swyddi hyn.

Mae'r Swydd yn ddarostyngedig ar ddeiliaid yn byw o fewn 45 munud o'u canolfan weithredol.

Mae'r rôl hon yn gofyn i ymgeiswyr fod yn Swyddog Traffig achrededig, gyda phwerau dirprwyedig dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Bydd cyflogaeth barhaus yn y gwasanaeth yn dibynnu ar gwblhau hyfforddiant a chyfnod prawf yn llwyddiannus.



# Cyfrifoldebau

### *Prif ddyletswyddau*

Bydd yr Arweinydd Swyddogion Traffig yn gyfrifol am ansawdd a safonau sicrwydd Swyddogion Traffig Asiant Cefnffyrdd y Gogledd a'r Canolbarth.
Darparu lefel uwch o gyfrifoldeb, gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth i Swyddogion Traffig, Gweithredwyr Ystafelloedd Rheoli yn o gystal â Rheolwyr Tîm Gweithrediadau a'r Rheolwr Gweithrediadau.
Gweithredu yn rhagweithiol ac ymatebol yn ôl yr angen i liniaru effeithiau'n gysylltiedig â digwyddiadau ar y rhwydwaith a bod yn ymwybodol o faterion a allai amharu ar weithredu'n ddiogel
Mynychu digwyddiadau a chymryd rôl Comander Gweithredol (Efydd) a chydlynu gyda gwasanaethau brys gan gydymffurfio ag egwyddorion JESIP.
Darparu lefel uwch o gyfrifoldeb iechyd a diogelwch drwy gyflwyniadau diogelwch a chynnal archwiliad o swyddogaethau'r Swyddogion Traffig, h.y. gwiriadau llyfrau nodiadau poced, cyfarpar diogelu personol ac adrodd yn ôl.

### *Swyddogaethau Eilaidd*

Cerbyd, radio ton awyr, camera fideo a wisgir ar y corff, ffôn a llechen
Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau a gyflawnir fel Swyddog Traffig lle bo angen.
Sicrhau bod Swyddogion Traffig yn deall ac yn bodloni'r safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt trwy fonitro gweithgareddau ar y ffordd o ran sicrwydd a chydymffurfiaeth ac arsylwadau.
Cynnal archwiliadau mewn digwyddiadau ar y rhwydwaith i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r Swyddogion Traffig.
Hyfforddi ac addysgu Swyddogion Traffig yn unol â'r arfer gorau cyfredol.
Cynnal gwiriadau cydymffurfio fel offer diogelwch personol, llyfrau nodiadau poced a gwiriadau POWDER.
Hyrwyddo ac adeiladu perthnasoedd gwaith da o fewn y tîm ar y ffordd a rhanddeiliaid gweithredol allweddol i gefnogi gweithio amlasiantaethol effeithiol.
Dirprwyo ar gyfer Rheolwyr y Tîm Gweithrediadau yn rhinwedd eu swyddogaethau fel Swyddogion Traffig.
Darparu cyfathrebu ysgrifenedig, electronig a llafar ar ffurf adroddiadau, nodiadau briffio, cyflwyniadau diogelwch a chofnodion yn ôl y gofyn.
Cynnal/cynorthwyo gydag adrodd yn ôl ar weithrediadau lle bo angen.
Adnabod a bod yn gyfrifol am reoli a diwallu amcanion datblygu ac anghenion hyfforddi staff unigol a'r holl staff yn gyffredinol, i sicrhau bod staff yn gwbl gyfarwydd a chymwys yn eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.
Casglu a chymhathu data a gwybodaeth o gofnodion er mwyn adnabod tueddiadau ac adrodd i ACGChC a rhanddeiliaid, perfformiad y gwasanaeth, adrodd yn ôl ac adroddiadau ysgrifenedig, yn ôl y gofyn, yn unol â gofynion deddfwriaethol a sefydliadol.
Cwblhau rhaglen o hyfforddiant gofynnol sydd wedi'i adnabod ac sy'n achrededig o fewn cyfnod prawf diffiniedig.
Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl weithdrefnau, prosesau, polisïau, systemau rheoli ansawdd, rheolau, rheoliadau a deddfwriaethau fel y maent yn berthnasol i'r swydd, gan gadw cofnodion cywir at ddibenion archwilio.
Mae'n gyfrifoldeb ar bob gweithiwr ACGChC i gydymffurfio gyda ac ymddwyn yn unol â pholisïau Iechyd a Diogelwch, amgylcheddol ac ansawdd fel y'u diffinnir yn y System Reoli Busnes Integredig.
Rheoli a chynnal diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.

### Safonau Perfformiad

Cynrychioli ACGChC a Llywodraeth Cymru (LlC) mewn ffordd broffesiynol a chadarnhaol bob amser.
Sicrhau ymagwedd o ansawdd uchel at reoli perfformiad bob amser, gan weithredu fel canolbwynt i staff.
Gweithredu i adeiladu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
Bod yn weithgar wrth geisio gwella hunanwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau, gan gynnal dealltwriaeth fanwl o rwydwaith Cefnffyrdd LlC a gwasanaeth Swyddogion Traffig LlC.
Cyflawni lefel dderbyniol yn yr amcanion y cytunwyd arnynt.
Sicrhau y cedwir yn gaeth at Bolisïau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.
Cymryd cyfrifoldeb am Iechyd a Diogelwch personol bob amser



# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

## Meini prawf penodol i'r swydd

### Nodweddion personol:

Hyblygrwydd wrth weithio patrymau shifftiau a'r gallu i weithio goramser rhesym
ol yn ôl y gofyn.
Rhaid i ymgeiswyr fyw o fewn 45 munud i'w canolfan weithredol.

### Cymwysterau a hyfforddiant personol:

Swyddog Traffig Achrededig, wedi'i lofnodi o dan y Ddeddf Rheoli Traffig gyda phwerau.
Sgiliau Hyfforddi a Mentora Lefel 3.

### Profiad perthnasol:

**Profiad Gwaith:**
O leiaf 2 flynedd yn y rôl Swyddog Traffig.
Gwybodaeth am y Llawlyfr Arwyddion Traffig – Pennod 8 – Rheoli Traffig Dros Dro.

**Cyfathrebu:**
Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig cryf.
Cyfathrebu anghenion a chyfarwyddiadau'n glir.
Yn siarad yn awdurdodol a hyderus.
Yn delio â materion yn uniongyrchol; yn newid yr arddull cyfathrebu i ddiwallu anghenion y gynulleidfa.

**Gwytnwch:**
Yn ddibynadwy mewn sefyllfaoedd anodd, yn peidio â chynhyrfu ac yn meddwl yn glir o dan bwysau.
Yn ymateb yn rhesymegol i amgylchiadau sy'n newid.
Yn parhau i ganolbwyntio ac yn gallu rheoli sefyllfa.
Yn gallu rheoli gwrthdaro yn effeithiol.
Yn gallu ymdrin ag ymddygiad gelyniaethus a heriol mewn dull pwyllog ac ymataliol.
Yn gallu delio â sgyrsiau anodd.

**Cynllunio a threfnu:**
Yn brydlon ac yn ddibynadwy.
Yn penderfynu ar flaenoriaethau a threfnu'r llwyth gwaith.
Yn cyflawni i derfynau amser heriol drwy gynllunio'n ofalus.
Yn peidio â cholli golwg o'r amcanion.

**Gwaith Tîm:**
Yn cefnogi a chynorthwyo'r tîm yn weithredol i gyrraedd ei amcanion.
Yn cydweithredu ac yn cefnogi eraill.
Yn cyfrannu at amcanion y tîm a datblygiad y tîm.

**Hunan-gymhelliant:**
Yn dangos cymhelliant, gan ymgymryd â thasgau heb i neb orfod gofyn.
Hunan-gymhellol, gan ddangos brwdfrydedd ac ymroddiad i'w rôl.
Yn gwella ei wybodaeth/gwybodaeth broffesiynol ei hun ac yn ei chadw'n gyfredol gyda pholisïau, gweithdrefn a hyfforddiant.


**Amrywiaeth:**
Yn gwrtais, goddefgar ac amyneddgar gyda phobl y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad, gan eu trin â pharch ac urddas.
Yn defnyddio iaith mewn ffordd briodol ac yn sensitif i'r ffordd y gallai effeithio ar bobl.
Yn deall beth sy'n tramgwyddo eraill ac yn addasu ei weithredoedd/gweithredoedd ei hun yn unol â hynny.
Yn parchu ac yn cynnal cyfrinachedd, lle bynnag y bo hynny'n briodol.

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru


Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff.




- I'w gadarnhau adeg yr apwyntiad



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o  wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.



- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.



- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.